**Hyfforddiant a Datblygu Gwirfoddolwyr**

Mae eich ymrwymiad chi fel gwirfoddolwyr yn rhan holl bwysig o waith yr Urdd a gallwn gynnig nifer o wasanaethau, gwybodaeth a chyngor i'ch cynorthwyo ac i'ch cefnogi.

Gall eich Swyddog Datblygu ddarparu cyngor ac arweiniad ar y canlynol:

- Sefydlu Adran ac Aelwyd
- Diogelwch plant a gweithgareddau adran ac aelwyd
- Gwaith papur adran ac aelwyd
- Trefniadau Eisteddfod
- Arfer da wrth drefnu gweithgareddau
- Syniadau ar gyfer nosweithiau arbenigol

Wrth ddod yn aelod o'ch Pwyllgor Cylch a Rhanbarth, cewch drafod pynciau o ddiddordeb a defnyddio arbenigedd gwirfoddolwyr profiadol, lleol.  Yn ychwanegol, drwy eich Pwyllgor Cylch a Rhanbarth gallwch drefnu gweithgareddau penodol i'ch ardal drwy gydweithrediad eich Swyddog Datblygu.

Ar lefel mwy ffurfiol gall yr Urdd gynnig sesiynau hyfforddiant a datblygu ar y pynciau canlynol:

- Diogelwch plant - argymhellir i bob arweinydd
- Gweithgareddau diogel ac asesiadau risg - argymhellir i bob arweinydd
- Syniadau a gweithgareddau i aelodau 8-11
- Syniadau a gweithgareddau i aelodau yn eu harddegau

Cysylltwch â Catrin James am fwy o fanylion: Catrinj@urdd.org